WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Dyddiad cyhoeddi: 01 Chwefror 2019

Cronfeydd wrth gefn cynghorau tref a chymuned

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch cais, yn unol â'r eglurhad yn eich ebost 18 Ionawr 2019, am gael gwybodaeth am y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan gynghorau cymuned yn Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych.

Rydym yn cadw rhywfaint o wybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad hwn ac atodaf ffeil sy'n dangos y cronfeydd wrth gefn, swm praesept a chronfeydd wrth gefn ar gyfer y cynghorau tref a chymuned yn Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r ffigurau a ddangosir yn cael eu tynnu o ddata a ddefnyddir mewn cysylltiad ag adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol 'Rheolaeth Ariannol a Llywodraethu – Cynghorau Tref a Chymuned 2017-18' ac maent yn bennaf ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 30 Mawrth 2018. Mae rhai cynghorau lle mae gwybodaeth amcangyfrifedig wedi cael ei defnyddio, ee lle na dderbyniwyd y ffurflen flynyddol ar adeg paratoi'r adroddiad gyda data o'r fath yn cael ei amcangyfrif yn seiliedig ar ffurflenni blynyddol y flwyddyn flaenorol.

Tynnaf eich sylw at adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol y cyfeirir ato uchod, yn enwedig tudalennau 16 i 18, y byddwch yn sylwi arnynt fod cynghorau lleol yn cadw cronfeydd wrth gefn a balansau am amrywiaeth o resymau, a gall fod gan gynghorau unigol resymau sydd yn unol â'r gyfraith ac sydd yn amddiffynadwy dros gadw cronfeydd wrth gefn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os oes gennych gwestiynau am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth